

HYSBYSIAD PWYSIG I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR



Dydd Sadwrn 2
a dydd Sul 3 Medi
Canol Tref Caerffili



GWYBODAETH AM Y DIGWYDDIAD A CHAU FFYRDD

LLEOLIAD: Cardiff Road, Twyn Road, Castle Street (tua'r gogledd yn unig), Parc Dafydd Williams, Y tu ôl i Gastell Caerffili (ardal laswelltrog ar ochr Crescent Road y castell), Canolfan Siopa Cwrt y Castell a maes parcio'r Twyn.

ORIAU AGOR: 9am - 8pm ar Dydd Sadwrn 2 Medi a 9am - 5pm ar Dydd Sul 3 Medi.

Trosolwg o'r Digwyddiad: Mae Gŵyl y Caws Bach yn dychwelyd am yr ail flwyddyn ac yn addo bod yn fwy ac yn well! Bydd cymaint o weithgareddau ac atyniadau hwyliog a chyffrous i'w mwynhau dros y penwythnos. Bydd y digwyddiad yn gartref i bedair ardal gerddoriaeth ledled canol y dref gan gynnwys prif lwyfan cerddoriaeth ym Maes Parcio'r Twyn. Bydd cymysgedd o stondinau bwyd a chrefffta a chonsesiynau bwyd a diod ledled safle'r digwyddiad, ynghyd â gwersylloedd ail-greu, arddangosfeydd anifeiliaid, theatr stryd a ffair hwyli!

Parthau Alcohol - Ledled canol y dref bydd parthau yfed dynodedig. Mae disgwyl y bydd busnesau lletygarwch lleol yn ymestyn eu mannau eistedd awyr agored ac yn ffurfio'r parthau yfed dynodedig yn bennaf. Bydd Maes Parcio'r Twyn hefyd yn darparu ar gyfer nifer o gonsesiynau bwyd a bar ac yn ffurfio canolbwynt canolog y digwyddiad. Ar y ddau ddiwrnod am 4.30pm, bydd archebion olaf yn cael eu gwneud ar gyfer y parthau yfed awyr agored a bydd yr holl dyrfaedd yn cael eu gwasgaru i'r lleoliadau lletygarwch neu oddi ar y safle am 5.00pm. Ddydd Sadwrn yn unig, bydd yr ardal yfed o fewn Maes Parcio'r Twyn yn aros ar agor tan 8.00pm, gyda'r archebion olaf am 7.30pm. Bydd yr holl alcohol sy'n cael ei yfed ym mhob parth mewn gwydrau plastig yn unig.

Diogelwch ar y Safle - Bydd presenoldeb diogelwch ar y safle drwy gydol y digwyddiad. Bydd gwarchodwyr diogelwch yn cael eu lleoli o amgylch canol y dref i sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei gludo i safle'r digwyddiad nac yn cael ei yfed y tu allan i'r parthau yfed dynodedig. Bydd gwarchodwr diogelwch penodedig ym mhob parth yfed.

Lefelau Sŵn - Bydd dau barth cerddoriaeth a fydd yn cynnwys pabell fach gydag actau tebyg i gerddorion stryd. Bydd prif lwyfan ym Maes Parcio'r Twyn a fydd yn gartref i fandiau mwy o faint ac a fydd yn cynnwys system sain lawn. Bydd lefelau sain rhesymol yn cael eu cytuno a'u monitro ar y diwrnod yn dilyn cyngor gan Dîm Iechyd yr Amgylchedd CBSC. Am unrhyw ymholiadau sŵn ar y diwrnod ffoniwch 07876 358074.

Cau Ffyrdd a Systemau Traffig: Bydd Cardiff Road, Twyn Road a Castle Street (tua'r gogledd yn unig) ar gau o 9.00pm ar 1.9.23 tan 9.00pm ar 3.9.23. Tra bydd y ffyrdd ar gau, ni fydd y system uffordd yn St Fagans Street ar waith rhwng y cyffyrdd â Bradford Street a Cardiff Road. Rhaid i gerbydau droi i'r chwith wrth yrru o St Fagans Street i Bradford Street.

Mynediad i fanwerthwyr: Yn achos manwerthwyr sydd ar hyd y rhan o Cardiff Road a fydd ar gau ac sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylen nhw drefnu i dderbyn y nwyddau sydd eu hangen ar gyfer penwythnos y digwyddiad cyn 10.00pm ar 1.9.22 neu rhwng 4.30am a 7.00am ar 2.9.23 a 3.9.23. Yn achos manwerthwyr sydd ar hyd St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Park Lane, byddan nhw'n cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen ac os oes ganddyn nhw docyn mynediad. Yn achos manwerthwyr a staff y llyfrgell sy'n cael defnyddio'r maes parcio y tu ôl i Gymdeithas Adeiladu'r Principality a Llyfrgell Caerffili, mae modd gwneud cais am docyn mynediad drwy gysylltu â digwyddiadau@caerffili.gov.uk neu **07876 358074**.

Taxis: Ni fydd taxis yn cael mynd trwy'r ardal y ffyrdd sydd ar gau. Trefnwch mannau casglu a gollwng amgen.

llwybrau a safleoedd bysiau: Bydd safleoedd bysiau sy'n cael eu heffeithio gan y ffyrdd sydd ar gau yn cael eu symud i'r brif gyfnewidfa a bydd llwybr amgen ar hyd Clive Street, Ludlow Street a Crescent Road yn gweithredu.

Maes Parcio ar gyfer gwasanaeth dosbarthu Iceland, Nicola Downie Florist a Sports Direct: Ni chaniateir mynediad i'r cyhoedd i'r maes parcio. Bydd stiward yn monitro'r bolardiau gostwng cloadwy rhwng Windsor Street a maes parcio Sports Direct / Nicola Downie Florist / Iceland yn ystod y digwyddiad. Bydd angen i unrhyw anghenion taci drefnu casgliad o ddiwedd Lôn Drefol Ogleddol Windsor Street. Gall deiliaid allwedd, rheolwyr a gweithwyr sifft cynnar Iceland, Nicola Downie Florist a Sports Direct fynd i'r maes parcio drwy Cardiff Road o 4.30am tan 7.00am ar 2.9.23 a 3.9.23. Ar ôl yr amseroedd hyn dim ond ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street y caniateir i gerbydau adael maes parcio'r siop. Dylai'r holl staff eraill barcio mewn meysydd parcio eraill yn y cyffiniau neu mae darpariaeth yn Ysgol Twyn. Bydd pasys yn cael eu rhoi i Sports Direct, Nicola Downie Florist ac Iceland ar gyfer yr ysgol hon. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ar y diwrnod, ffoniwch 07876 358074 am y swyddog digwyddiadau ar y safle.

Mynediad i breswylwyr: Er mwyn hwyluso taith ddiogel i Iceland, Nicola Downie Florist a cherbydau dosbarthu Sports Direct trwy Lôn Drefol Gogledd Windsor Street, gofynnir i breswylwyr gadw'r lôn hon yn rhydd o gerbydau yn ystod cyfnod y digwyddiad. Bydd gwaharddiad rhag aros a llwytho yn y lôn hon o 5.00pm 1.9.23 tan 9.00pm ar 3.9.23. Bydd preswylwyr St Fagan's Street sydd â lle parcio / garej y tu ôl i'w heiddo ar Park Lane yn cael pasys ar gyfer mynediad yn ystod y digwyddiad. Mae modd defnyddio Ysgol y Twyn ar gyfer parcio yn ystod oriau agor y digwyddiad bob dydd os oes angen.

Diolch am eich amser a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod prysur hwn. Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â Chanolfan Ymwelwyr Caerffili ar 029 2088 0011 / CroesoCaerffili@caerffili.gov.uk

I gymryd rhan yn unrhyw un o'r digwyddiadau neu i roi adborth ar ôl y digwyddiadau, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau ar 07876 358074 / digwyddiadau@caerffili.gov.uk. I gael diweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau dilynwch Croeso Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Instagram, Twitter a Facebook. I gael rhagor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau ewch i: www.visitcaerphilly.com/cy/events

Anogir busnesau canol y dref i gofrestru ar gyfer Cylchlythyr Busnes CBSC. Cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Ewch i: https://public.govdelivery.com/accounts/UKCAERPHILLY_CY/subscriber/new i danysgrifio heddiw!



**FFYNIANT
— BRO —**

Tîm Caerffili
Yn Well gyda'n Gilydd



I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, dilynwch Croeso Caerffili ar Twitter, Instagram a Facebook. [visitcaerphilly](https://www.visitcaerphilly.com/cy/events)

029 2088 0011 www.visitcaerphilly.com/cy/events #ChooseLocal #UKSPF